

**Ymchwiliadau annibynnol yr IOPC:
Gwybodaeth i swyddogion heddlu,
staff a'u cynrychiolwyr**

> Cynnwys

> Cyflwyniad.....	2
> Adnabod statws y bobl fu'n ymwneud â'n hymchwiliadau.....	3
> Pryd fydd statws y rhai sydd ynghlwm yn cael ei benderfynu?.....	3
> Asesiad difrifoldeb.....	4
> Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n destun ymchwiliad?.....	4
> Beth sy'n digwydd os cewch eich ystyried yn dyst mewn ymchwiliad?.....	7
> Pa mor aml fydd yr ymchwilydd yn diweddarau'r rhai sy'n destun yr ymchwiliadau a thystion?	7
> Canlyniadau wedi i ymchwiliad gael ei gwblhau.....	8
> Am rhagor o wybodaeth.....	10

> Cyflwyniad

Mae'r IOPC yn goruchwylio system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr. Mae'n annibynnol, gan wneud ei benderfyniadau yn hollol annibynnol o'r heddlu, y llywodraeth ac achwynwyr. Rhan o'n gwaith yw dadansoddi gweithrediadau swyddogion a staff yr heddlu yn dilyn marwolaeth neu anaf difrifol a ddigwyddodd yn ystod neu ar ôl cyswllt â'r heddlu. Rydym hefyd yn ymchwilio'r cwynion mwyaf difrifol ac atgyfeiriadau ymddygiad gan heddluoedd. Rhaid i bob swyddog barchu'r **Safonau Ymddygiad Proffesiynol** Gallai staff yr heddlu fod â chontractau penodol sy'n egluro disgwyliadau eu rôl.

Mae'r ddogfen hon yn egluro'r negeseuon allweddol ar gyfer swyddogion a staff yr heddlu sydd ynghlwm â digwyddiad neu honiad sy'n destun ymchwiliad gan yr IOPC.

Drwy gydol ein hymchwiliadau, mae'n debygol y bydd swyddogion a staff yn cael gohebiaeth reolaidd gan ymchwilydd yr IOPC. Bydd hyn yn cwmpasu eu statws, gwybodaeth ynghylch cyfweiliadau a diweddariadau ynglŷn â'r ymchwiliad. Mae'r IOPC yn ceisio darparu ymagwedd gyson er mwyn i swyddogion a staff wybod beth i'w ddisgwyl gan yr IOPC.

Mae'r ddogfen hon yn esbonio:

- y broses ynghlwm wrth asesu statws swyddogion a staff yn ystod ymchwiliad gan yr IOPC
- y broses ynghlwm wrth wneud penderfyniadau ynghylch asesiad difrifoldeb
- y broses o roi hysbysiad o ymchwiliad
- tystion yr heddlu
- sut y byddwn y cysylltu â chi a'ch diweddarau

Mae'r ddogfen hon yn esbonio sut mae ein hymchwiliadau yn effeithio ar swyddogion a staff yr heddlu. Mae rheoliadau ar wahân yn egluro sut fyddwn yn ymchwilio contractwyr¹. Nid yw'r ddogfen hon yn gynhwysfawr ychwaith a chaiff ei diweddarau i adlewyrchu unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar ein gwefan².

> Adnabod statws y bobl fu'n ymwneud â'n hymchwiliadau

Yn ystod ein hymchwiliadau, gallwn osod statws swyddogol ar y rhai sydd ynghlwm. Mae dau fath o statws swyddogol: unigolyn sy'n destun ymchwiliad neu dyst.

Bydd staff a swyddogion yr heddlu a fu'n rhan ymylol o ddigwyddiad yn cael eu hystyried yn dystion, oni bai y bydd yr ymchwilydd o'r farn bod **arwydd** y **gallai'r** unigolyn fod wedi:

- cyflawni trosedd, neu
- wedi ymddwyn mewn modd fyddai'n cyfiawnhau dwyn achos o ddisgyblaeth yn ei erbyn

Os bydd y naill neu'r llall neu'r ddau arwydd yma'n bresennol, golyga y gallech gael eich trin fel un sy'n destun yn yr ymchwiliad hwnnw.

Ar y pwynt hwn, dylech nodi fod y trothwy i'r ymchwilydd ystyried a yw swyddog neu aelod o staff yn destun, yn isel – sef 'arwydd'³.

Bydd yr ymchwilydd arweiniol yn edrych ar amgylchiadau neilltuol pob achos er mwyn asesu a oes yna unrhyw arwydd o droseddau neu gamymddygiad. Er mwyn cwblhau'r asesiad hwn, bydd yr ymchwilydd yn ystyried y dystiolaeth sydd ar gael ar yr adeg honno. Mewn rhai achosion, gallai'r ymchwilydd arweiniol benderfynu bod angen rhagor o dystiolaeth cyn gwneud y penderfyniad hwn gan gadw statws y swyddog dan adolygiad drwy gydol yr ymchwiliad.

> Pryd fydd statws y rhai sydd ynghlwm yn cael ei benderfynu?

Bydd ymchwilydd o'r IOPC yn penderfynu o gychwyn cyntaf yr ymchwiliad a yw'n ystyried swyddogion a staff yr heddlu ynghlwm â'r ymchwiliad yn dystion neu rai sy'n destun ymchwiliad. Mae'r penderfyniad hwn yn destun adolygiad drwy gydol yr ymchwiliad cyfan.

Gall statws swyddog neu aelod o staff yr heddlu newid o fod yn dyst i fod yn un sy'n destun ymchwiliad ar unrhyw bwynt yn ystod yr ymchwiliad, wrth i fwy o dystiolaeth gael ei chasglu.

¹ Rheoliadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (Cwynion a Chamymddygiad) (Contractwyr) 2015

² www.policeconduct.gov.uk

³ Paragraff 19B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

Wedi i swyddog gael ei adnabod fel un sy'n destun ymchwiliad, mae'n annhebygol y bydd y statws hwn yn newid – oni bai bod arwydd clir nad oedd y wybodaeth a ddefnyddiwyd i wneud y penderfyniad hwn yn ddilys.

> Asesiad difrifoldeb

Pan fydd ymchwilydd yn penderfynu bod arwydd y gallai'r swyddog fod wedi cyflawni trosedd neu ymddwyn mewn modd a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu, rhaid iddo gynnal asesiad difrifoldeb⁴.

Mae asesiad difrifoldeb yn ystyried a fyddai'r ymddygiad, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr ag un ai camymddwyn difrifol, neu gamymddwyn sydd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau camau disgyblu. Mae hefyd yn ystyried y math o unrhyw weithdrefnau disgyblu pe byddai hynny'n berthnasol. Mae 'camymddygiad' yn golygu tramgwyddo'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu. Mae 'camymddygiad difrifol' yn golygu tramgwyddo'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol mewn modd mor ddifrifol fel ei fod yn cyfiawnhau diswyddiad⁵.

Mae'r asesiad difrifoldeb hefyd yn edrych ar y math o weithdrefnau fyddai'n debygol o gael eu dilyn. Ar gyfer swyddogion, petai'r ymddygiad yn un o gamymddygiad, yna byddai cyfarfod yn briodol. Petai'n gamymddygiad difrifol, byddai'n arwain at wrandawriad.

Gallai swyddog wynebu gwrandawriad hefyd petai ei ymddygiad yn un o gamymddwyn, ond roedd yn destun rhybudd ysgrifenedig terfynol byw ar adeg yr asesiad difrifoldeb cychwynnol, neu israddiwyd ei reng dan Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2004 neu Reoliadau'r Heddlu (Ymddygiad) 2020 lai na dwy flynedd cyn yr asesiad difrifoldeb cychwynnol.

Mae **Tabl 1** ar dudalen 9 yn esbonio'r canlyniadau posibl mewn cyfarfodydd neu wrandawriadau camymddwyn. Sylwch: gall hyn amrywio ar gyfer aelodau staff yr heddlu yn ddibynnol ar eu contract.

Bydd yr ymchwilydd hefyd yn ymgynghori â'r awdurdod priodol ynghylch yr asesiad difrifoldeb cyn gwneud penderfyniad terfynol⁶.

Bydd yr IOPC yn hysbysu'r swyddog neu aelod o staff yr heddlu ynghylch yr asesiad difrifoldeb pan gaiff wybod ei fod yn cael ei ystyried fel un sy'n destun ymchwiliad yn yr ymchwiliad hwnnw.

⁴ Paragraff 19B, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

⁵ Paragraff 29, Atodlen 3, *Deddf Diwygio'r Heddlu 2002*.

⁶ Mae'r 'awdurdod priodol' yn cyfeirio at: ar gyfer prif swyddog, y corff plismona lleol ar gyfer ardal yr heddlu y mae'r swyddog yn aelod ohono; ac, mewn unrhyw achos arall, y prif swyddog sydd ag awdurdod a rheolaeth dros yr unigolyn sy'n gwasanaethu gyda'r heddlu.

> Beth sy'n digwydd os byddwch chi'n destun ymchwiliad?

Pan fydd ymchwilydd IOPC yn penderfynu y dylid trin swyddog neu aelod o staff yr heddlu fel un sy'n destun ymchwiliad, caiff yr unigolyn rybudd ynghylch hynny cyn gynted ag y mae'n ymarferol gwneud hynny.

Rhoi hysbysiad i swyddogion heddlu

Rhaid i'r hysbysiad un ai:

- gael ei roi i'r unigolyn dan sylw yn bersonol gan ei gyfaill heddlu, sy'n cynnwys cynrychiolwyr Ffederasiwn yr Heddlu, ble mae cyfaill heddlu wedi cytuno i ddanfon yr hysbysiad)
- ei roi i'r swyddog yn bersonol gan yr ymchwilydd (mewn ymchwiliad annibynnol rhaid i'r rhoddwr fod yn ymchwilydd IOPC, mewn ymchwiliad a gyfarwyddir dylai'r rhoddwr fod y swyddog ymchwilio o'r heddlu hwnnw)
- ei adael gyda rhywun yn, neu wedi ei anfon drwy ddanfoniad cofnodedig i, gyfeiriad diwethaf gwybyddus yr unigolyn (ni fydd yr opsiwn hwn yn cael ei ddewis fel arfer oni bai nad yw'n bosibl i'r ymchwilydd na'r cyfaill heddlu roi'r hysbysiad yn bersonol)⁷

Dylai'r hysbysiad gynnwys y manylion canlynol⁸:

- manylion y cyhuddiad a sut yr honnir i'r ymddygiad hwnnw fod islaw'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol
- y bydd ymchwiliad yn cael ei gynnal, a phwy yw'r sawl sy'n ymchwilio
- asesiad yr ymchwilydd ynghylch a fyddai'r ymddygiad hwnnw, pe bai'n cael ei brofi, yn gyfystyr â chamymddwyn neu gamymddwyn difrifol
- petai'r mater yn cael ei gyfeirio at weithdrefnau o gamymddwyn, a fyddai hynny'n debygol o arwain at gyfarfod o gamymddwyn neu wrandawriad o gamymddwyn
- os yw'r unigolyn dan sylw yn cael ei ddiswyddo yn y gweithdrefnau disgyblu, bydd gwybodaeth gan gynnwys enw llawn yr unigolyn a disgrifiad o'r ymddygiad a arweiniodd at ddiswyddo yn cael eu hychwanegu at restr wahardd yr heddlu ac y gallai hynny gael ei gyhoeddi am gyfnod o hyd at bum mlynedd
- fod gan yr unigolyn dan sylw hawl i ofyn am gyngor gan ei gymdeithas staff neu unrhyw gorff arall, a rôl cyfaill heddlu
- yr hawl i gyflwyno ymatebion i'r ymchwilydd yn sgil y rhybudd, a'i bod yn hanfodol i'r ymchwilydd eu hystyried cyn pen deng niwrnod gwaith
- y rhybudd camymddwyn

Law yn llaw â'r hysbysiad ysgrifenedig dan Reoliadau 17 o'r Rheoliadau Ymddygiad neu Reoliad 17 o'r Rheoliadau Cwynion, rhaid i'r ymchwilydd gynhyrchu'r cylch gorchwyl ar gyfer yr ymchwiliad i'r swyddog dan sylw, sy'n destun unrhyw eithriadau.

⁷ Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

⁸ Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2020.

Rhoi hysbysiad i swyddogion heddlu

Gall y dull o gyflwyno'r hysbysiad o ymchwiliad gael ei esbonio yn amodau a thelerau cyflogaeth yr aelod o staff neu ym mholisi'r heddlu lleol.

Gall yr ymchwilydd IOPC gyflwyno'r hysbysiad yn bersonol. Neu, gall yr ymchwilydd ofyn i reolwr o'r heddlu neu gynrychiolydd o'r undeb i gyflwyno'r hysbysiad yn bersonol.

Yn ddibynnol ar ei contract cyflogaeth a pholisi'r heddlu lleol, gallai hefyd fod yn briodol nodi (yn yr hysbysiad), a yw'r ymddygiad wedi cael ei asesu fel un sy'n gamymddwyn neu'n gamymddwyn difrifol. Bydd y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnwys hyn yn seiliedig ar contract yr aelod o staff.

Os oes arwydd bod y swyddog heddlu neu aelod o staff yr heddlu wedi cyflawni trosedd, bydd yn cael llythyr yn amlinellu'r manylion.

Cael cyfweiliad fel rhywun sy'n destun ymchwiliad

Dylai swyddogion a staff ddisgwyl cael eu cyfweld ynglŷn â'r digwyddiad gan ymchwilydd yr IOPC. Mewn amgylchiadau eithriadol, gall yr ymchwilydd benderfynu nad oes angen cyfweiliad, ond dim ond ar ôl i'r swyddog neu'r aelod o staff gael cyfle i ymateb i'r hysbysiad o ymchwiliad.

Cynhelir y cyfweiliad dan y rhybudd camymddwyn ac, os yw'n briodol, rhybudd troseddol. Penderfynir ar amseriad y cyfweiliad yn unol ag anghenion yr ymchwiliad. Mae hyn yn rhoi'r cyfle i roi'r ffeithiau i ni ac egluro beth ddigwyddodd yn y digwyddiad.

Bydd gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad hawl i gael ei gynrychioli gan gyfaill heddlu⁹.

Os yw'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad yn swyddog heddlu wrth ei waith, rhaid i'w gyfaill heddlu fod yn un hefyd, neu'n aelod o staff yr heddlu neu'n unigolyn a enwebwyd gan gymdeithas staff yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad. (Gall y gymdeithas staff ddewis i enwebu cyfreithiwr fel cyfaill heddlu.)

Os yw'r unigolyn sy'n destun ymchwiliad yn aelod o staff yr heddlu, gall y cyfaill heddlu fod yn gynrychiolydd undeb llafur, yn swyddog heddlu, yn aelod o staff yr heddlu, neu yn unrhyw unigolyn arall a enwebir gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad ac a gymeradwywyd gan brif swyddog yr heddlu y mae'n gwasanaethu ynddo.

Ni all y cyfaill heddlu fod yn unigolyn sydd â chysylltiad neu ddiddordeb yn yr ymchwiliad neu fel arall ynghlwm â'r ymchwiliad.

Nid oes gan yr unigolyn sy'n destun ymchwiliad hawl i gael unrhyw gynrychiolaeth arall yn y cyfweiliad. Fodd bynnag, os cynhaliwyd cyfweiliad troseddol cyn y cyfweiliad o gamymddwyn, gall yr ymchwilydd arweiniol ystyried caniatáu i'r cynrychiolydd cyfreithiol aros ar gyfer gweddill y cyfweiliad.

⁹ Rheoliad 17, Rheoliadau (Cwynion a Chamymddygiad) yr Heddlu 2012.

Ymhle y cynhelir y cyfweliad?

Dylid asesu lleoliad pob cyfweliad ac amgylchiadau swyddog neu'r aelod o staff yn unigol i'r achos dan sylw. Dylid rhoi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wneir gan y swyddog, aelod o staff neu ei gynrychiolwyr wrth benderfynu ymhle y dylid cynnal y cyfweliad.

> Beth sy'n digwydd os cewch eich ystyried yn dyst mewn ymchwiliad?

Mae pob ymchwiliad yn craffu gweithrediadau, hepgoriadau, datganiadau a phenderfyniadau'r swyddogion a staff yr heddlu sydd ynghlwm â'r digwyddiad. Mae hyn yn digwydd hyd yn oed os cyflwynwyd cwyn neu beidio ac a gyflwynwyd hysbysiadau i'r swyddogion ynghlwm neu beidio. Er enghraifft, yn ystod ymchwiliad o farwolaeth neu anaf difrifol mewn achos o saethu angheuol gan yr heddlu, bydd gweithrediadau'r swyddogion heddlu a oedd ynghlwm â'r digwyddiad yn cael eu craffu, hyd yn oed os ydynt yn cael eu trin fel tystion.

Gallai'r ymchwilydd fod eisiau trefnu i gyfweled neu gael safbwynt y tyst.

Fel tyst, bydd disgwyl i chi gydweithredu ag ymchwiliadau, ymholiadau a gweithrediadau ffurfiol yr IOPC, yn unol â'r Safonau Ymddygiad Proffesiynol.

Bydd yr ymchwilydd yn ceisio cael y dystiolaeth orau, fel arfer drwy gyfweled tystion a chael datganiadau sy'n crynhoi'r dystiolaeth. Fel arfer caiff datganiadau eu drafftio a'u cwblhau ym mhresenoldeb y tyst. Anogir y tyst i fod yn rhan bwrpasol o'r gwaith drafftio i sicrhau ei fod yn gwbl fodlon â'r datganiad cyn ei arwyddo. Yn achlysurol, gall yr ymchwilydd benderfynu y caiff y tyst ddarparu datganiad heb orfod cynnal cyfweliad – er enghraifft, os yw rhan y tyst yn y digwyddiad yn un ymylol. Bydd yr ymchwilydd yn siarad yn uniongyrchol â'r tyst (a'i gynrychiolydd, ar gais y tyst), i drafod sut i fwrw ymlaen.

> Pa mor aml fydd yr ymchwilydd yn diweddarau'r rhai sy'n destun yr ymchwiliadau a thystion?

Cysylltu ag unigolion sy'n destun ymchwiliad

Bydd yr IOPC yn diweddarau'r swyddogion/staff sy'n destun ymchwiliad bob 28 diwrnod o leiaf, oni bai y cytunir ar amserlen wahanol gyda'r ymchwilydd arweiniol.

Mae'n ofynnol i'r ymchwilydd arweiniol hysbysu'r swyddogion/staff am y penderfyniadau a gymerir ar ôl cwblhau'r ymchwiliad. Mae hyn yn amodol ar brawf niwed. Ni fydd unrhyw wybodaeth a all niweidio unrhyw ymchwiliad neu weithdrefnau troseddol, yn cael eu datgelu.

Cysylltu â thystion

Nid oes rheol benodol ynghylch pa mor aml y bydd yr ymchwilydd arweiniol yn diweddarau tystion. Penderfynir ar hyn gan yr ymchwilydd arweiniol ar ddechrau'r ymchwiliad. Bydd yn

dibynnu ar amryw o ffactorau, gan gynnwys i ba raddau mae'r swyddog heddlu/aelod staff ynghlwm, a'i ddiddordeb yn y mater, cymesuredd ac anghenion yr ymchwiliad.

Dull o gysylltu

Bydd yr ymchwilydd yn trafod y ffordd fwyaf effeithiol o gyfathrebu gyda'i un pwynt cyswllt (SPOC) yn Adran Safonau Proffesiynol yr heddlu. Bydd hyn yn dibynnu ar amryw o ffactorau, fel graddfa'r ymchwiliad, dewisiadau'r swyddog heddlu/aelod o staff ynghlwm, ac amryw o ffactorau eraill.

Efallai y penderfynir ei bod hi'n fwy ymarferol i'r ymchwilydd gysylltu â'r swyddog/aelod o staff yn uniongyrchol drwy e-bost, gan gopïo'r SPOC i mewn i'r neges.

Mewn achos o ymddygiad, os bydd rhywun sy'n destun ymchwiliad yn gofyn i ni gyfathrebu drwy ei gyfaill heddlu, Ffederasiwn yr Heddlu, undeb neu gynrychiolydd arall, yna gall yr ymchwilydd benderfynu anfon pob gohebiaeth drwy'r cynrychiolydd a ddewiswyd. Pan fydd y swyddog/aelod o staff yn cael ei hysbysiad o ymchwiliad, bydd yn cynnwys blwch ticio er mwyn iddo nodi ei ddewis.

Mewn achos troseddol, gall y swyddog/aelod o staff sydd ynghlwm ofyn i bob gohebiaeth gael ei hanfon drwy ei gyfreithiwr.

> Canlyniadau wedi i ymchwiliad gael ei gwblhau

Ar ôl cael adroddiad yr ymchwiliad, rhaid i benderfynydd yr achos¹⁰ ddod i'r casgliad 'yn ei farn ef neu hi' ynghylch:

- Nid oes gan y swyddog heddlu neu aelod o staff achos i'w ateb, nac achos i'w ateb ar gyfer camymddygiad neu gamymddygiad difrifol. Gyda'r uchod, bydd y penderfynydd yn rhoi ei farn hefyd ar a ddylid dwyn achos disgyblu yn erbyn y swyddog heddlu neu'r aelod o staff, ac os felly, ar ba ffurf y dylai'r achos hwnnw fod.
- Roedd perfformiad y swyddog heddlu neu aelod o staff yn anfoddhaol, a dylid dwyn achos o berfformiad yn ei erbyn.
- Dylid cyfeirio unrhyw fater a oedd yn destun yr ymchwiliad i ddelio ag ef o dan y broses adolygu ymarfer myfyriol¹¹.

Mae'n bwysig nodi nad yw casgliad penderfynydd yr achos yn pennu a yw'r swyddog heddlu neu'r aelod o staff wedi camymddwyn ai peidio. Mae'n amlinellu a yw penderfynydd yr achos o'r farn bod digon o dystiolaeth i olygu y gallai cyfarfod neu wrandawriad camymddwyn rhesymol wneud casgliad o gamymddwyn neu gamymddwyn difrifol gan y swyddog, yn ôl pwysau tebygolrwydd.

¹⁰ Defnyddir y term 'penderfynydd yr achos' i ddiffinio'r unigolyn sydd bennaf gyfrifol am y penderfyniadau allweddol mewn achos. Mae hyn yn cynnwys y penderfyniadau ynghylch canlyniad yr ymchwiliad.

¹¹ Mae'r broses adolygu ymarfer myfyriol yn canolbwyntio ar ddatrys mater a'i atal rhag digwydd eto drwy annog y rheiny sydd ynghlwm i fyfyrion ar eu camau gweithredu a dysgu ohonynt. Nid yw'n broses disgyblu nac yn ganlyniad disgyblu.

Wedi i ni gwblhau ein hymchwiliad, rhannwn ein hadroddiad a'n barn gyda'r awdurdod priodol. Gall yr awdurdod priodol gynnig safbwyntiau. Tra y byddwn ni'n ystyried y safbwyntiau hynny, byddwn yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid cynnal cyfarfod neu wrandawriad o gamymddwyn neu beidio.

Os cyfeirir yr achos i weithdrefnau camymddygiad, pennir y penderfyniad yn y cyfarfod neu wrandawriad ar y safon profi sy'n ofynnol mewn achosion sifil, sef y pwysau o debygolrwydd. O dan amgylchiadau prin iawn, byddwn yn gallu cyflwyno ein hachos mewn gwrandawriadau camymddwyn, lle ceir anghytundeb rhyngom ni a'r awdurdod priodol ynghylch achos i'w ateb am gamymddwyn difrifol.

Os daw'r cyfarfod neu'r gwrandawriad i'r casgliad bod y camymddygiad wedi ei brofi, bydd wedyn yn penderfynu ar y canlyniad priodol. Rhestrir y canlyniadau posibl yn **nhabl 1**.

Tabl 1: Canlyniadau posibl o gyfarfod/gwrandawriad camymddwyn¹²

Cyfarfod camymddwyn	Gwrandawriad camymddwyn
<ul style="list-style-type: none"> • Ni chanfuwyd unrhyw gamymddwyn • Proses adolygu ymarfer myfyriol lle ni chanfuwyd unrhyw gamymddwyn • Dim camau pellach • Rhybudd ysgrifenedig (18 mis) • Rhybudd ysgrifenedig terfynol (dwu flynedd) 	<ul style="list-style-type: none"> • Ni chanfuwyd unrhyw gamymddwyn • Proses adolygu ymarfer myfyriol lle ni chanfuwyd unrhyw gamymddwyn • Dim camau pellach • Rhybudd ysgrifenedig (18 mis) • Rhybudd ysgrifenedig terfynol (dwu flynedd) • Estyniad o rybudd ysgrifenedig terfynol • Diswyddo heb rybudd • Gostwng rheng • Diswyddo heb rybudd

Rhestr gwahardd a chynghorol

Bydd swyddogion heddlu, cwnstabiliaid rhan-amser a staff a ganfyddir yn euog o gamymddwyn ac sy'n cael eu diswyddo, neu a fyddai wedi cael pe na baent wedi ymddeol neu ddiswyddo, yn cael eu henwau wedi eu rhoi ar restr wahardd. Bydd yn rhaid i heddluoedd a chyrrff plismona eraill, gan gynnwys yr IOPC, gyfeirio at y rhestr hon cyn penodi a chânt eu hatal yn gyfreithlon rhag cyflogi unrhyw un sydd â'i enw ar y rhestr wahardd.

¹² Atodlen E, Canllawiau'r Swyddfa Gartref ar Gamymddwyn gan Swyddog Heddlu, Perfformiad Anfodhaol a Gweithdrefnau Rheoli Presenoldeb.

Bydd swyddogion heddlu ac aelodau o staff sydd yn destun ymchwiliad am achos a allai arwain at ddiswyddiad, ac sy'n ymddeol neu'n ymddiswyddo yn ystod ymchwiliad i mewn i'r mater hwnnw, yn cael eu rhoi ar restr gynghorol. Pan fydd swyddog wedi ymddeol neu ymddiswyddo, a daw honiad i'r amlwg wedi iddo ef neu hi adael, a fyddai wedi arwain at ddiswyddo, caiff ei enw ei ychwanegu hefyd i'r rhestr gynghorol honno. Y rheswm am hyn yw er mwyn i gyrff plismona fod yn ymwybodol o achosion cyfredol neu honiadau perthnasol wrth gynnal gwiriadau cyn-cyflogi.

Pan fydd gweithdrefnau disgyblu wedi cael eu cwblhau, dyma fydd y camau nesaf:

- os caiff yr unigolyn ei ddiswyddo, neu, yn achos cyn swyddogion, canfyddir y byddai wedi cael ei ddiswyddo petai'n dal i wasanaethu, ychwanegir ei enw i'r rhestr wahardd
- os na chaiff yr achos ei brofi, caiff ei enw ei dynnu oddi ar y rhestr gynghorol

Bydd aelodau staff sy'n ymddiswyddo neu'n ymddeol cyn i achosion disgyblu allu cael eu cynnal, yn parhau ar y rhestr gynghorol am bum mlynedd o leiaf. Os nad oedd yr honiad yn gysylltiedig â'i ymddygiad, caiff ei enw ei dynnu oddi ar y rhestr gynghorol fel mater o drefn wedi pum mlynedd. Ar gyfer honiadau o ymddygiad, gall y cyn aelod o staff gyflwyno cais i'r Coleg Plismona i ofyn i'w fanylion gael eu tynnu oddi ar y rhestr wedi pum mlynedd.

Y Coleg Plismona sy'n gyfrifol am gynnal y rhestr wahardd a'r rhestr gynghorol.

Yn yr adroddiad terfynol o'r ymchwiliad, bydd yr ymchwilydd yn rhoi ei farn ef neu hi ynghylch a oes tystiolaeth bod trosedd wedi ei chyflawni. Yna, cyflwynir yr adroddiad terfynol o'r ymchwiliad i'r cyfarwyddwr rhanbarthol neu gyfarwyddwr Cymru, sy'n gorfod penderfynu a oes arwydd y gallai trosedd fod wedi ei chyflawni ac a fyddai'n briodol, dan yr amgylchiadau, i gynnwys yr adroddiad gael ei adolygu gan Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus.

Os bydd y cyfarwyddwr rhanbarthol neu gyfarwyddwr Cymru o'r farn bod yr amodau hyn wedi eu bodloni, cyfeirir yr adroddiad yn ffurfiol i Wasanaeth Eryl y Goron (CPS). Y CPS fydd yn penderfynu a ddylid cyhuddo'r swyddog heddlu neu'r aelod staff sy'n cael ei ymchwilio.

> Am ragor o wybodaeth

Am ragor o wybodaeth ewch i'n gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Os bydd gennych unrhyw gwestiynau cysylltwch â'r ymchwilydd IOPC sy'n arwain yr ymchwiliad yr ydych yn rhan ohono.

© IOPC 2020

This is licensed under the Open Government License v3.0 unless otherwise stated.

OGI

